

Cofrestr NMC Cymru

1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022



Yngyn â ni

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel y rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer mwy na 758,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau addysgol a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon ynghylch nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.



Ynglyn â'n cofrestr

Rydym yn cadw'r gofrestr o'r holl nyrsys a bydwragedd sy'n gymwys i ymarfer yn y DU, a chymdeithion nyrsio a all ymarfer yn Lloegr. Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi data o'n cofrestr bob chwe mis. Roedd ein hadroddiad blaenorol yn ddiweddiad canol blwyddyn a gyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd 2021.

Sut i ddehongli ein data

Mae ein hadroddiadau data pedair gwlad yn seiliedig ar nifer y bobl ar ein cofrestr sydd â chyfeiriad yn y wlad berthnasol yn y DU. Nid yw rhai gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol sydd wedi ymuno â'n cofrestr wedi rhoi cyfeiriad yn y DU i ni eto – ni fydd y bobl hyn yn cael eu cynnwys yn unrhyw un o setiau data'r pedair gwlad, ond byddant yn cael eu cynnwys ym mhrif set ddata'r DU. Mae hyn yn golygu y gallai fod mwy o weithwyr proffesiynol cofrestredig ym mhob un o wledydd y DU nag y gallwn ei gadarnhau yn ein hadroddiadau pedair gwlad.

Ni fydd pawb ar ein cofrestr barhaol yn gweithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar hyn o bryd, neu yn y maes y maent wedi cofrestru ynddo.

Fe wnaeth pobl a ymunodd â'n cofrestr yn 2021–2022 ymuno drwy brosesau gwahanol, yn dibynnu a oeddent yn dod o'r DU, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (UE/AEE) neu'r tu allan i'r UE/AEE. Nawr bod y DU wedi gadael yr UE/AEE, mae pawb sy'n dechrau cais i ymuno â'n cofrestr o'r tu allan i'r DU yn dilyn yr un broses ryngwladol.¹

Ni fydd nifer y rhai sy'n ymuno, y rhai sy'n gadael a chyfanswm y bobl sydd wedi'u cofrestru yn adio'n union. Mae hynny oherwydd mai dim ond pobl sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf y mae data'r rhai sy'n ymuno yn eu cynnwys. Nid yw'n cynnwys pobl a ail-ymunodd ar ôl seibiant o ymarfer.


Mae nifer y rhai sy'n ymuno ac yn gadael yn gyfansymiau o'r flwyddyn gyfan (1 Ebrill – 31 Mawrth). Rydym yn gweithio i wella ein systemau fel y gallwn ddarparu darlun mwy cyflawn o'r rhai sy'n ymuno ac yn gadael yn y dyfodol.

Mae ein cofrestr barhaol yn newid bob dydd a gall amrywio'n sylweddol o ddechrau'r mis i ddiwedd y mis. Felly, dim ond ciplun mewn amser y mae ein data yn ei gynnig. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o'n cofrestr ar 31 Mawrth 2022.

Rydym yn adolygu ansawdd a chynnwys ein data a'n gwybodaeth yn barhaus. Pan yw data gwell neu wybodaeth ychwanegol ar gael, byddwn yn diweddarau ein gwybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu, wrth gymharu data yn ein hadroddiadau diweddaraf yn ôl rhai o'n cyhoeddiadau blaenorol, efallai y byddwch yn gweld gwahaniaethau bach mewn rhai data.

¹ O dan delerau deddfwriaeth Llywodraeth y DU, mae unrhyw un a oedd wedi cyflwyno cais dichonadwy i'r NMC cyn 31 Rhagfyr 2020, yn parhau'n gymwys i gwblhau'r cais o fewn dwy flynedd.

Maint ein cofrestr barhaol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2022



Tabl 1

Cyfanswm y bobl ar y gofrestr barhaol yn ôl math o gofrestriad gyda chyfeiriad yng Nghymru

Math o gofrestriad	Mawrth 2018	Mawrth 2019	Mawrth 2020	Mawrth 2021	Mawrth 2022
Nyrs	33,716	33,957	34,661	35,274	36,045
Bydwraig	1,530	1,594	1,663	1,747	1,817
Unigolyn cofrestredig deuol (nyrs a bydwrraig)	479	448	434	419	392
Cydymaith nyrsio	n/a	2	5	6	14
Cyfansw	35,725	36,001	36,763	37,446	38,268


Cyflwynwyd rôl y cydymaith nyrsio yn 2019, yn Lloegr yn unig. Mae gan gyfran fach o gymdeithion nyrsio cofrestredig gyfeiriadau yng Nghymru.

Ymuno â'r gofrestr barhaol

Mae nifer y bobl sydd wedi ymuno â'n cofrestr barhaol yng Nghymru am y tro cyntaf wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, ymunodd 1,600 o bobl. Mae hynny 143 (9.8 y cant) yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Ffigur 1

Pobl â chyfeiriad yng Nghymru yn ymuno â'r gofrestr barhaol am y tro cyntaf




Nid yw data'r rhai sy'n ymuno â'r gofrestr yn cynnwys y rheini sy'n ail-ymuno â'r gofrestr ar ôl gadael o'r blaen. Hefyd, mae'r nifer cyffredinol ar y gofrestr o un adeg mewn amser, tra bod data'r rhai sy'n ymuno a'r ymadawyr yn swm y gweithgarwch dros ddeuddeg mis. Felly, ni fydd y ffigurau hyn yn adio'n union.

Gadael y gofrestr barhaol

Cynyddodd nifer y bobl yn gadael y gofrestr barhaol yng Nghymru eto eleni ar ôl dwy flynedd o niferoedd tebyg. Yn 2021-2022 gadawodd 1,401 o bobl y gofrestr. Mae hynny 12.7 y cant (158 o bobl) yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Ffigur 2

Pobl â chyfeiriad yng Nghymru yn gadael y gofrestr barhaol



Gweithwyr proffesiynol a hyfforddodd yn yr UE/AEE

Mae nifer y bobl ar y gofrestr yng Nghymru a hyfforddodd yn yr UE/AEE wedi gostwng 4.2 y cant i 571. Mae Rwmania yn parhau i fod y wlad hyfforddi UE/AEE amlaf o bell ffordd ond ag ychydig yn llai o weithwyr proffesiynol wedi cofrestru nag yn 2020-2021.

Tabl 2

Cyfanswm nifer y bobl ar y gofrestr barhaol yng Nghymru yn ôl gwlad hyfforddi yn yr UE/AEE (pum gwlad uchaf)

	Mawrth 2018	Mawrth 2019	Mawrth 2020	Mawrth 2021	Mawrth 2022
Rwmania	249	246	263	254	239
Gwlad Pwyl	54	53	55	57	60
Sbaen	78	72	65	63	58
Yr Eidal	84	65	63	59	54
Portiwgal	26	30	28	30	29

Gweithwyr proffesiynol a hyfforddodd y tu allan i'r UE/AEE

Mae nifer y bobl ar y gofrestr yng Nghymru a hyfforddodd y tu allan i'r UE/AEE wedi codi 14.3 y cant i 2,794. Bellach mae 1,265 o bobl wedi hyfforddi yn Ynysoedd y Philipinau, a 946 o bobl a hyfforddodd yn India. Mae gweithwyr proffesiynol a hyfforddodd yn y gwledydd hyn yn parhau i gynrychioli cyfran sylweddol o'n cofrestr barhaol.

Tabl 3

Cyfanswm nifer y bobl ar y gofrestr barhaol yng Nghymru yn ôl gwlad hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE (pum gwlad uchaf)

	Mawrth 2018	Mawrth 2019	Mawrth 2020	Mawrth 2021	Mawrth 2022
Ynysoedd y Philipinos	1,115	1,135	1,168	1,194	1,265
India	627	633	692	792	946
Nigeria	39	39	44	57	96
De Affrica	96	94	92	95	87
Simbabwe	16	21	27	44	81

Proffil y gofrestr barhaol yng Nghymru

Oedran

Mae nifer y bobl 21–40 oed ar ein cofrestr barhaol yng Nghymru wedi cynyddu'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Cynyddodd nifer y bobl yn yr ystod oedran 56–71 a hyn hefyd 6.8 y cant yn 2020–2021. Roedd gostyngiad o 5.9 y cant yn nifer y bobl 41–55 oed. Mae'r patrwm twf hwn yn y dosbarthiadau oedran isaf ac uwch, a gwasgfa yn y canol, yn adlewyrchu darlun y DU.


Tabl 4
Proffil oedran y gofrestr barhaol yng Nghymru

	Mawrth 2018	Mawrth 2019	Mawrth 2020	Mawrth 2021	Mawrth 2022
21–30	4,644	4,798	+3.3%	5,073	+5.7%
31–40	7,226	7,375	+2.1%	7,705	+4.5%
41–50	10,254	9,982	-2.7%	9,708	-2.7%
51–55	6,547	6,307	-3.7%	6,123	-2.9%
56–60	4,558	4,807	+5.5%	5,119	+6.5%
61–70	2,385	2,628	+10.2%	2,924	+11.3%
71 a hyn	111	104	-6.3%	111	+6.7%



Ffigur 3

Proffil oedran y gofrestr barhaol yng Nghymru



Rhywedd



Mae **90** y cant o bobl ar ein cofrestr barhaol yng Nghymru yn nodi eu bod yn fenywod



Mae **10** y cant o bobl ar ein cofrestr barhaol yng Nghymru yn nodi eu bod yn ddynion

Dros y pum mlynedd diwethaf dim ond newidiadau ffracsïynol sydd wedi bod yn y rhaniad hwn rhwng y rhywiau. O'r 38,268 o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr barhaol yng Nghymru, dywedodd 207 nad yw eu rhywedd yr un fath â'u rhyw ar adeg eu geni.

Ethnigrwydd

Tabl 5

Proffil ethnigrwydd y gofrestr barhaol yng Nghymru

	31 Mawrth 2022
Arabaidd	9
Asiaidd – Unrhyw gefndir Asiaidd arall	151
Asiaidd – Bangladeshaidd	36
Asiaidd – Tsieineaidd	34
Asiaidd – Ffilipinaidd / Ffilipinaidd	1,284
Asiaidd – Indiaidd	1,017
Asiaidd – Pacistanaidd	61
Du – Affricanaidd	711
Du – Unrhyw gefndir du arall	19
Du – Caribiaidd	95
Cymysg – Unrhyw gefndir cymysg/lluosog ethnig arall	17
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	90
Cymysg – Gwyn a du Affricanaidd	45
Cymysg – Gwyn a du Caribiaidd	190
Arall – Unrhyw grŵp ethnig arall	157
Gwell gennyf beidio â dweud	678
Anhysbys	82
Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall	764
Gwyn – Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig	32,573
Gwyn – Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	5
Gwyn – Gwyddelig	250
Cyfanswm	38,268

Meysydd ymarfer nyrsio

Ar hyn o bryd mae pedwar categori o nyrsys cofrestredig, a gelwir y rhain yn bedwar maes ymarfer nyrsio. Maent yn cwmpasu oedolion, plant, anableddau dysgu, a nyrsio iechyd meddwl.

Cynyddodd y pedwar maes ymarfer nyrsio yng Nghymru. Gwelodd nifer y nyrsys plant y cynnydd mwyaf o 4.6 y cant. Cododd nifer y nyrsys iechyd meddwl yn sylweddol hefyd, o 2.4 y cant.

Roedd cynnydd o 1.5 y cant yn nifer y nyrsys oedolion a chynnydd o 1.8 y cant mewn nyrsys anabledd dysgu yn 2021-2022.

Nid yw'r data hyn yn dweud wrthym ym mha rôl y mae nyrsys yn gweithio ar hyn o bryd. Gall nyrsys feddu ar fwy nag un cymhwyster ac nid ydynt bob amser yn gweithio yn y meysydd y maent wedi'u cofrestru ynddynt.

Tabl 6

Nyrsys sydd wedi'u cofrestru yn y pedwar maes ymarfer sydd â chyfeiriad yng Nghymru

	Oedolion	Plant	Anableddau dysgu	Iechyd meddwl
Mawrth 2022	28,376	2,765	988	5,306
Mawrth 2021	27,955	2,644	971	5,182
Mawrth 2020	27,607	2,557	940	5,120
Mawrth 2019	27,209	2,468	924	4,985
Mawrth 2018	27,187	2,405	914	4,945



SCPHN a chymwysterau ymarfer arbenigol

Mae'r teitl nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) ar gyfer nyrsys a bydwragedd cofrestredig sy'n gweithio mewn rolau iechyd cyhoeddus. Byddant wedi cwblhau cyrsiau SCPHN a gymeradwywyd gennym ni.

Mae Cymwysterau Ymarfer Arbenigol (SPQs) yn gymwysterau cofnodadwy dewisol sy'n bodloni ein safonau ond nid ydynt yn arwain at fynediad i ran o'r gofrestr nac unrhyw deitl a swyddogaeth warchoddedig.

Tabl 7

Cyfanswm nifer y Nyrsys Cymunedol ac Iechyd Cyhoeddus Arbenigol cofrestredig sydd â chyfeiriad yng Nghymru

	Mawrth 2018	Mawrth 2019	Mawrth 2020	Mawrth 2021	Mawrth 2022
Ymwelwyr iechyd	1,351	1,356	1,390	1,393	1,407
Nyrsys ysgol	252	254	267	269	279
Nyrsys iechyd galwedigaethol	102	99	95	94	91
SCPHNs heb faes ymarfer	8	8	8	7	7
Nyrsys teulu	0	0	0	0	0
Cyfanswm	1,713	1,717	1,760	1,763	1,784

Tabl 8**Cyfanswm nifer y gweithwyr proffesiynol gyda chymwysterau arbennig/
cofnodadwy a roddwyd i weithwyr proffesiynol ar y gofrestr barhaol gyda
chyfeiriad yng Nghymru**

	Mawrth 2018	Mawrth 2019	Mawrth 2020	Mawrth 2021	Mawrth 2022
Nyrs Annibynnol / Atodol sy'n Rhagnodi	1,459	1,595	1,742	1,882	2,059
Nyrs Ymarferydd Cymunedol sy'n Rhagnodi	2,632	2,703	2,783	2,816	2,911
SP – Nyrsio Ardal	1,091	1,107	1,101	1,119	1,133
Athrawes	243	272	284	282	273
SP – Nyrsio Oedolion	448	432	419	400	382
Darlithydd / Addysgwr Ymarfer	324	309	301	285	265
SP – Nyrsio Practis Cyffredinol	196	201	201	202	203
Nyrs Annibynnol sy'n Rhagnodi	8	9	9	9	7
SP – Nyrsio Iechyd Meddwl Cymunedol	143	135	134	128	124
SP – Nyrsio Plant Cymunedol	77	79	80	79	79
SP – Iechyd Meddwl	12	12	13	13	13
SP – Community Learning Disabilities Nursing	39	39	38	34	35
SP – Nyrsio Plant	43	42	40	39	38
SP – Nyrs Anabledd Dysgu	0	0	0	0	0
Cyfanswm	6,715	6,935	7,145	7,288	7,522

SP = Ymarferydd Arbenigol

Cofrestr dros dro Covid-19 yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2020 fe wnaethom sefydlu cofrestr dros dro Covid-19 i gefnogi ymateb y DU i'r pandemig coronafeirws.

Yn y lle cyntaf fe wnaethom wahodd nyrsys a bydwraedd a oedd wedi gadael ein cofrestr barhaol o fewn y tair blynedd diwethaf i ymuno â'n cofrestr dros dro Covid-19.

Ym mis Ebrill 2020 fe wnaethom wahodd dau grwp arall: ymgeiswyr tramor, gan gynnwys nyrsys a bydwraedd, a oedd wedi cwblhau pob rhan o'u proses gofrestru gyda'r NMC ac eithrio eu OSCE (archwiliad clinigol strwythuredig gwrthrychol); a nyrsys a bydwraedd a oedd wedi gadael y gofrestr barhaol o fewn y pedair a phum mlynedd diwethaf.

Ym mis Ionawr 2021 estynnodd ein gwahoddiad i grwp pellach o nyrsys a hyfforddwyd dramor yn ystod camau olaf eu cais i ymuno â'n cofrestr barhaol. Yna fe wnaethom agor cofrestr dros dro Covid-19 hyd at y rhai a adawodd ein cofrestr barhaol yn fwy diweddar.

Ym mis Gorffennaf 2021 caewyd y gofrestr dros dro i seiri rhyngwladol newydd. Ond fe'i hailagorwyd i nyrsys sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol ym mis Rhagfyr 2021, yng ngoleuni'r pwysau cynyddol yr oedd y pandemig yn ei achosi ar y pryd.

Rydym bellach wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth y DU y bydd ein cofrestr dros dro yn cau ar 30 Medi 2022. Rydym yn cefnogi gweithwyr proffesiynol cymwys i symud ar draws i'r gofrestr barhaol, os ydynt am barhau i ymarfer ar ôl y dyddiad hwn.

Tabl 9

Cyfanswm y bobl ar gofrestr dros dro Covid-19 sydd â chyfeiriad yng Nghymru

31 Mawrth 2022	
Nyrs	721
Bydwraig	43
Nyrs a bydwraig	7
Cyfanswm	771

Mae nifer y bobl sydd â chyfeiriad yng Nghymru yn cyfrif am 5.2 y cant o gofrestr dros dro Covid-19, sy'n cymharu â 5 y cant o'r gofrestr barhaol.

23 Portland Place, London W1B 1PZ

T +44 20 7333 9333

nmc.org.uk

 @nmcnews

 @nmcuk

 Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth